

Cerddorion Ifanc Dyfed / Young Music Makers of Dyfed

Gofynion wrth gyflwyno cyfansoddiadau

Plis darllennwch ein cyfarwyddiadau'n ofalus, a chydymffurfiwch yn llwyr â nhw

Ffurflen gais

Gwneud cais am sesiwn diwtorial ar gyfansoddi, ac am berfformiad gan yr ensemble preswyl.

1a. Cwblhewch a manylion yn llawn. **PRINTIWCH** yr holl wybodaeth yn glir.

Gallwch lawr lwytho ffurflen gais o **wefan YMMD**: www.ymmd.org

1b. Danfonwch y ffurflen gais, wedi'i gwblhau, at:

Helen MacNabb
Gweinyddwr
CID
1 Grange Gardens
Llanilltud Fawr
Bro Morgannwg
CF61 2XB

e-bost: YMMDyfed@gmail.com

i gyrraedd erbyn y **DYDDIAD CAU** a nodir ar y ffurflen / wefan.

Eich Cyfansoddiad:

2a. Bydd angen i chi ddanfon **DAU (2) gopi** o'r SGÔR LLAWN.

Bydd angen i chi ddanfon fersiwn electronig ar ffurf **PDF** (fel atodiad i e-bost)

Bydd angen i chi ddanfon set lawn o'r **RHANNAU UNIGOL** ar gyfer pob offeryn fydd yn perfformio (os ydych yn defnyddio piano, fe fydd y pianydd yn defnyddio'r sgôr llawn).

Er enghraifft os ydych wedi cyfansoddi Triawd Piano, danfonwch rannau i'r Feiolin a'r Sielo, gyda dau sgôr llawn, gyda PDF (2 sgôr llawn; rhannau; PDF)

2b. **Printiwch** eich **ENW, YSGOL/COLEG**, a **THEITL** eich cyfansoddiad **AR y SGÔR** a **PHOB RHAN UNIGOL**.

2c. Mae'n well cynnwys fersiwn Sibelius neu Finale, ond os nad yw hyn yn bosibl, mae'n rhaid i'ch sgôr a'r rhannau llawysgrif fod yn ddealladwy.

2d. Cofiwch fod yn rhaid i'r sgôr a'r rhannau unigol rhoi'r holl wybodaeth sydd angen ar yr offerynwyr er mwyn iddynt fedru'i berfformio'n llwyddiannus. Mae'n bwysig cynnwys marciau tempo a mynegiannol, er mwyn i'r perfformwyr ddeall beth oedd yn eich dychymyg. Ceisiwch osgoi unrhyw amwysedd o fewn y nodiant. Mae'n beth da i chi geisio dychmygu sut fyddai perfformiwr unigol yn dehongli eich cerddoriaeth wrth ddechrau ei chwarae, a sut fyddai sawl perfformiwr yn cyfuno i'w chwarae. Bydd gwybodaeth gyflawn yn sicrhau llai o oedi mewn ymarfer.

Tueddwch tuag at roi llawer o wybodaeth i'r perfformwyr; defnyddiwch dermau Eidaleg, neu'r Saesneg/Cymraeg cyfatebol i esbonio'r naws, yr arddull, a sut yn dechnegol y dylid ei berfformio.

Dylai POB rhan a'r **SGÔR LLAWN** gynnwys manylion penodol am y tempo (Andante, Allegretto, L'istesso tempo, etc) , newidiadau tempo (ritardando, rallentando, accelerando, daliannau, a.y.b.), a phethau megis acenion, marciau stacato a.y.b. Bydd hyn yn galluogi'r ensemble i berfformio gyda'i gilydd yn effeithiol.

Y Sgor Llawn:

3a. Argraffwch y SGÔR ar ddwy ochr tudalen A4, gyda maint ffont 100%. Fel arfer mae'r sgôr yn dechrau gyda'r dudalen ar y dde. Gellir cynnwys esboniad o'r darn, a'i ysbrydoliaeth ar y dudalen cyn y gerddoriaeth neu y tu mewn i'r clawr.

3b. Os ydych yn cyflwyno sgôr i bianydd neu delynor, ceiswch sicrhau barrau gwag ar ddiwedd y dudalen dde i'w galluogi i droi tudalennau. Os nad yw hyn yn bosibl gellid trefnu rhywun arall i droi tudalennau.

3c. Mae angen **RIFAU BAR** ar ddechrau pob llinell o fewn y sgor. Defnyddiwch ffont MAWR a llythrennau PRAFF. Mae **LLYTHRENNAU YMARFER** (neu rifau) hefyd yn ddefnyddiol (wedi ei nodi o fewn boc) bob rhyw 10 bar.

3d. Os yw eich sgôr yn cynnwys rhan lleisiol, mae angen argraffu'r geiriau o dan y nodau, gyda phob cyfarwyddyd arall o ran tempo, deinameg a.y.b. UWCHBEN yr erwydd.

3e. Os oes marc daliant o fewn eich darn, rhaid sicrhau ei fod yn ymddangos yn yr union le ym MHOB rhan. Mae'r un peth yn wir am newidiadau a marciau tempo.

3f. Mae angen cynnwys marciau megis stacato, acenion a.y.b. o fewn y sgôr fel y bod pawb yn ymwybodol o'r fath o chwarae sydd ei angen. Bydd angen i rain ymddangos ym mhob rhan unigol hefyd wrth gwrs.

3g. Yn arferol y dyddiau hyn, mae'r sgôr yn cynnwys pob rhan wedi ei nodi mewn traw cyngerdd (concert pitch). Os yw, dylid cydnabod hyn o fewn y clawr, yn ogystal â gwybodaeth eraill megis cydnabyddiaethau, a gofynion perfformio.

3h. Os yw eich cyfansoddiad yn cynnwys bas dwbl, piccolo, neu offerynnau eraill sy'n trawsnodi i fyny neu i lawr **wythfed, dylid eu trawsnodi** yn y sgôr llawn. Er enghraifft, nodir y piccolo wythfed yn is, a'r bas dwbl wythfed yn uwch.

3i. **DARLLENADWYAETH** yw'r peth mwyaf pwysig. Sicrhewch felly fod y **nifer o farrau mewn llinell** yn caniatáu nodiant clir, a manylion ychwanegol, megis dotiau a.y.b. sydd yr un mor eglur.

Rhannau Offerynnol

4a. Printiwch eich **ENW, YSGOL/COLEG**, a **THEITL** eich darn ar bob rhan offerynnol unigol.

4b. Argraffwch bob rhan ar bapur A4, gan ddefnyddio ffont maint 100%. Fel arfer dylech ddechrau gyda'r dudalen dde, ond os yw eich rhan yn ddwy dudalen o hyd argraffwch ar y chwith a'r dde is osgoi troi tudalen.

4c. **Dylai** rhannau offerynnau sy'n trawsnodi gael eu trawsnodi yn y rhannau unigol. Cofiwch wneud hyn er mwyn cyflwyno fersiwn sydd wedi ei drawsodi i'r perfformiwr. e.e. mae bas dwbl yn swnio wythfed yn is na'r nodiant, a'r piccolo wythfed yn uwch; bydd angen i glarinet Bb gael ei ysgrifennu tòn yn uwch. Mae yna lyfrau a gwefannau ar gael sy'n rhoi mwy o wybodaeth am offerynnau sy'n trawsnodi.

4d. Os yw y rhan unigol yn fwy na dwy dudalen, yna bydd angen i'r dudalen ar y dde orffen gyda barrau qwaq i roi amser i'r offerynwr i droi. Gellid defnyddio'r canlynol fel canllaw:

2/3 bar o Adagio/Lento mewn 3/4

4/5 bar o Allegro mewn 4/4

6 bar o Presto mewn 4/4

Os oes angen, gadewch ran o'r dudalen ar y dde yn hollol wag er mwyn caniatáu amser i droi. Cofiwch mai eich cyfrifoldeb chi yw cyflwyno rhan nad yw'n amwys na'n anodd ei chwarae: byddwch yn fanwl iawn yn eich paratoi.

The image shows a page of musical notation for the right hand of a viola. The score is in 3/4 time and covers measures 129 to 164. It includes various dynamic markings such as *mf*, *f*, *sfz*, and *p*. Performance instructions include *div*, *con forza*, *sighing*, *gliss*, and *Allegro Moderato molto espressivo*. Rehearsal marks are indicated by boxes labeled H1, H2, I, I1, I2, I3, and I4. The final measure of the page is marked with a '7'.

Enghraifft: Dyma dudalen dde rhan fiola gyda saib 7 bar er mwyn caniatáu amser i droi. Noder hefyd y rhifau bar, y llythrennau ymarfer mewn bocsydd, eglurder y nodiant a.y.b.